Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol i arolygwyr
Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Ysgolion

Medi 2010

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Beth yw'r diben?

I roi arweiniad i arolygwyr ar arfarnu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru pan fydd yn drywydd ymholi.

Ar gyfer pwy y'i bwriadwyd?

Pob arolygydd ysgol.

Pryd dylai'r arweiniad ddechrau cael ei ddefnyddio?

O Fedi 2010.

1 Cyflwyniad

Mae hyrwyddo ADCDF yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae 'ADCDF: Dealltwriaeth gyffredin i ysgolion' (Gorffennaf 2008)[1] yn nodi bod '**Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn addysg fydd yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd yn yr 21ain ganrif'.** Mae'n cydnabod nad yw ADCDF yn bwnc ychwanegol a'i bod yn hytrach yn cael ei disgrifio fel maes sy'n ymwneud â **'gwerthoedd ac agweddau, dealltwriaeth a medrau. Mae'n ethos sy'n gallu cael ei ymgorffori ar draws yr ysgol, agwedd i'w mabwysiadu, yn system o werthoedd ac yn ffordd o fyw.'**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn herio ysgolion i roi cyfleoedd i athrawon a dysgwyr ystyried materion byd-eang; gwneud y cysylltiad rhwng yr hyn sy'n bersonol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; cymryd rhan mewn profiadau diwylliannol amrywiol; arfarnu eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain yn feirniadol; a meithrin medrau fydd yn eu galluogi i herio anghyfiawnder, rhagfarn a gwahaniaethu.

Mae'r arweiniad hwn hefyd yn cydnabod gwaith parhaus cynllun Rhwydweithiau Ysgolion ADCDF 2009 – 2010 sy'n ceisio:

- cynorthwyo ADCDF i gael ei hymgorffori yn y cwricwlwm a'i sefydlu ym mhob rhan o fywyd yr ysgol;
- galluogi addysgwyr i gael syniadau, adnoddau a chymorth a'u galluogi i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu gweithrediad ADCDF; a
- hwyluso a chyfrannu at ddatblygu dull o gyflwyno ADCDF 'ar y cyd' mewn ysgolion, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Mae'r arweiniad atodol hwn yn cysylltu ag arweiniad Estyn 2010 ar gyfer arolygu ysgolion[2].

Mae fframwaith arolygu cyffredin 2010 yn rhoi lle blaenllaw i ADCDF. Mae wedi'i nodi yn adran 2.1.4 yng Nghwestiwn 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Mae'r arweiniad yn nodi:

[1] ADCDF; Dealltwriaeth Gyffredin i Ysgolion' Gorffennaf 2008
[2] Arweiniad Estyn 2010 ar gyfer arolygu ysgolion

2.1.4: Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF)

Mae gan ADCDF le amlwg ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, fel Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth, ac mae'n un o'r pum thema yn y Fframwaith ABCh. Mae hefyd i'w gweld yng Nghraidd Dysgu Llwybrau Dysgu 14-19 ac yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau:

- **mae gweithgareddau'r cwricwlwm a'r gweithgareddau allgyrsiol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd ADCDF;**
- **mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy, er enghraifft, wrth ddefnyddio ynni, lleihau gwastraff ac ailgylchu; a**
- **mae'r ysgol yn cyfrannu at ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, drwy ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach.**

2 Arfarnu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Arfarniad yr ysgolion o'i pherfformiad ei hun yw man cychwyn yr arolygiad. Os yw'r ysgol wedi tynnu sylw at ADCDF yn ei adroddiad hunanarfarnu, hwyrach y bydd yr arolygydd cofnodol yn cyfeirio trywydd ymholi at ADCDF yn ystod yr arolygiad.

Bydd y tîm arolygu yn edrych ar sampl o dystiolaeth i brofi hunanarfarniad yr ysgol o'i gwaith ar ADCDF.

Yn ôl pob tebyg, bydd sawl cyfle i gael tystiolaeth am ddealltwriaeth y dysgwyr o ADCDF a pha mor dda mae'r ysgol yn ei rheoli a'i hyrwyddo.

Mae modd dod o hyd i dystiolaeth am ADCDF yn y blynyddoedd cynnar ac ym mhob cyfnod allweddol. Gall dysgwyr 3-19 oed gael cyfleoedd i feithrin syniadau am ADCDF.

Bydd arolygwyr yn cael y cyfle i ystyried i ba raddau mae gweithgareddau allgyrsiol yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd y disgyblion parthed ADCDF, er enghraifft, drwy brosiectau am bynciau fel ailgylchu, lleihau gwastraff, defnyddio ynni a deall y byd ehangach.

Hwyrach bod rhai ysgolion wedi derbyn gwobr am eu gwaith ym meysydd datblygu cynaliadwy neu ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, Gwobr Eco-Ysgolion a Gwobr Ysgolion Iach.

Os yw ADCDF yn cael ei nodi fel **trywydd ymholi**, mae'r adran isod yn cynnwys rhai cwestiynau posibl wrth ddilyn y trywydd ymholi. Nid oes disgwyl i chi ddefnyddio pob un o'r cwestiynau hyn. Yn hytrach, defnyddiwch y rhai sy'n berthnasol i'ch trywydd ymholi yn unig. Nid yw'r rhestr yn un gynhwysfawr.

1 Y ddealltwriaeth, y medrau a'r gwerthoedd y mae disgyblion yn eu meddu ac yn eu defnyddio ym maes datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

- A yw'r disgyblion yn deall bod yr hyn y maen nhw ac eraill yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol?
- A yw'r disgyblion yn gwybod sut gallent ofalu am yr amgylchedd?
- A ydynt yn ymwybodol bod gan bobl wahanol safbwyntiau am wahanol faterion sy'n ymwneud ag ADCDF?
- A yw'r disgyblion yn cael y cyfle i ddysgu am faterion lleol a'r byd ehangach?
- A yw'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar yr ysgol a'r gymuned?

2 Dysgu ac addysgu o ran ADCDF

- A yw'r cwricwlwm ABCh yn ystyried ADCDF?
- A yw'r cynllun gwaith ar gyfer Daearyddiaeth/Gwyddoniaeth yn bodloni anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol o ran ADCDF?

- A oes tystiolaeth o ADCDF yn cael ei chymhwyso ar draws y cwricwlwm?
- A yw disgyblion yn cael cyfleoedd i feithrin eu dealltwriaeth o ADCDF mewn pynciau eraill, e.e. Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Drama, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hachredu'n allanol?
- Pa gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yng nghraidd dysgu llwybrau dysgu 14-19 ac/neu ym Magloriaeth Cymru i ystyried ADCDF?
- A yw'r disgyblion yn gallu ehangu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ADCDF drwy waith/prosiectau allgyrsiol?

3 Polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo a gweithredu ADCDF.

- A oes gan yr ysgol bolisi ar gyfer ADCDF?
- A yw'r polisi wedi cael ei fonitro i ystyried yr effaith ar arferion?
- A oes gan yr ysgol weithgor i ddatblygu ADCDF?
- A oes tystiolaeth o gwmpas yr ysgol o gynaliadwyedd neu ddinasyddiaeth fyd-eang? Er enghraifft, mewn arddangosfeydd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn ADCDF, o ran defnyddio ynni, lleihau gwastraff, ailgylchu ac arddangos rhyngberthnasoedd â'r byd ehangach.
- A yw'r ysgol yn cynorthwyo bwyta'n iach yn y ffreutur yn ogystal ag o gwmpas yr ysgol?
- A yw amrywiaeth y gweithgareddau allgyrsiol yn cynorthwyo ffyrdd iach o fyw?
- Pa mor effeithiol mae ADCDF yn cael ei harwain a'i rheoli?
- A fu unrhyw gyfleoedd DPP i staff?

4 Cynorthwyo datblygiad a chynaliadwyedd ADCDF yn yr ysgol.

- Pa mor dda mae'r staff yn deall ADCDF?
- A fu unrhyw DPP i gynorthwyo staff i gynnwys ADCDF yn eu haddysgu?
- A yw ADCDF wedi'i chynnwys ar agenda cyfarfodydd y corff llywodraethol?
- A oes cynlluniau i ddatblygu ADCDF ymhellach?
- A oes rhywun yn yr ysgol sy'n gyfrifol am ADCDF?
- A yw'r unigolyn hwn yn rhoi adborth am ddatblygiadau i'w reolwr llinell/tîm arwain?

Mae'r atodiad i'r arweiniad hwn yn cynnwys model y gallwch ei ddefnyddio fel man cychwyn er mwyn nodi nodweddion allweddol ADCDF.

Atodiad

Elfen	Sylfaenol	Datblygol	Datblygedig	Wedi'i hymgorffori
Amlygrwydd yn y cwricwlwm addysygu a dysgu	Materion amgylcheddol yn cael blaenoriaeth dros Ddatblygu Cynaliadwy neu Ddinasyddiaeth Fyd-eang Sylw wedi'i gyfyngu'n bennaf yn ôl gofynion y pwnc neu ofynion Eco-Ysgolion / cynlluniau ysgolion iach	ADC neu ADF yn cael sylw penodol mewn rhai pynciau Cynllun gwobrwyo neu gysylltiadau rhwng ysgolion yn cyfrannu at rai elfennau o'r cwricwlwm ADCDF yn cael ei hystyried yn faes sy'n ymwneud â materion amgylcheddol yn bennaf	ADC a DF yn cael eu cynllunio a'u trafod mewn amrywiaeth o bynciau Cynlluniau gwobrwyo, mentrau, cysylltiadau'r ysgol yn cyfrannu at gwricwlwm yr ysgol gyfan	ADCDF wedi'i hintegreiddio ar draws cwricwlwm yr ysgol gyfan Datblygu ADCDF-cyfeiriad clir mewn cynlluniau at ddealltwriaeth, medrau a gwerthoedd perthnasol Deilliannau ar gyfer disgyblion yn cael eu monitro a'u harfarnu Targedau ar gyfer datblygu yn cael eu cynnwys wrth gynllunio
Gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd disgyblion	Wedi'i gyfyngu i rai meysydd pwnc a grwpiau bychain o ddisgyblion e.e. eco bwyllgor. Ychydig neu ddim dealltwriaeth o gysylltiadau lleol – byd-eang nac o DC a DF	Y gallu i gymhwyso DCDF ar draws pynciau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol Ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chysylltiadau lleol – byd-eang Meithrin medrau a gwerthoedd cymdeithasol	Y gallu i gysylltu materion lleol â phryderon byd-eang ac i'r gwrthwyneb Dealltwriaeth glir yn cael ei datblygu o faterion DC a DF cyfoes I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, mae medrau ymholi, dadansoddi beirniadol a chyfathrebu yn amlwg wedi'u datblygu mewn cyd-destun	Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin medrau ymholi, dadansoddi beirniadol a chyfathrebu mewn cyd-destun Mae disgyblion yn deall ac yn cymhwyso gwybodaeth am ADCDF i ddadansoddi amrywiaeth o ddehongliadau am gynaliadwyedd ac i herio safbwyntiau syml neu ystrydebol o gymdeithasau eraill Mae disgyblion yn meithrin eu dealltwriaeth a'u medrau drwy wneud penderfyniadau a chynnal eu mentrau eu hunain. Mae disgyblion yn gallu cyflwyno eu canfyddiadau i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd Mae disgyblion yn rhannu eu gwaith gyda'u teulu o ysgolion

Cynnwys disgyblion	Wedi'i gyfyngu'n bennaf i rai disgyblion sy'n ailgylchu a mentrau achlysurol eraill hefyd fel digwyddiadau elusennol	Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan O ran ADCDF, mae'n ymwneud yn bennaf â digwyddiadau amgylcheddol a/neu ddigwyddiadau unigryw	Disgyblion yn cymryd rhan gan gynnwys gwneud penderfyniadau, yn rhan barhaus o waith yr ysgol neu'r coleg e.e. drwy gyngor yr ysgol neu'r coleg Cymorth cymheiriaid, er enghraifft, i ddatrys gwrthdaro/gwrth-fwlio	Disgyblion yn cyflwyno awgrymiadau rheolaidd ar gyfer ac yn arwain mentrau mewn arferion DC a DF yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer cynnwys disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Mae disgyblion yn cymryd rhan amlwg wrth wneud penderfyniadau am faterion ehangach yn yr ysgol.
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	ADCDF yn cael ei hystyried yn 'fenter arall' Gallai mentrau ailgylchu gael eu hyrwyddo Gwasanaethau boreol yn canolbwyntio ar ADCDF	Cymryd rhan yn y cynllun neu'r fenter fel arfer yn dibynnu ar un neu ddau aelod o'r staff Rhywfaint o sylw penodol i arferion ynni adnewyddadwy Siop fwyd iach yn gwerthu byrbrydau a ffrwythau masnach deg Cael gwared ar beiriannau gwerthu neu newid y cynnwys.	Uwch reolwyr yn rhoi arweiniad ar ADCDF Cynlluniau datblygu a pholisïau yn cyfeirio at ADCDF Archwiliad wedi'i gynnal o amlygrwydd ADCDF yn y cwricwlwm. Man amgylcheddol ar dir yr ysgol	ADCDF yn ffurfio rhan graidd o athroniaeth ac arferion y sefydliad ac yn cael ei monitro, ei harfarnu a'i datblygu'n rheolaidd Adnoddau a chyfrifoldebau penodol ar gyfer ADCDF wedi'u dyrannu mewn cyllidebau Partneriaethau cymunedol a rhyngwladol wedi ennill eu plwyf